Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# DARGANFOD EICH LLEOLIAD

Eich helpu i wneud y mwyaf o'ch lleoliad

DARGANFOD EICH LLEOLIAD

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cynnwys


2 Cyflwyniad gan IL Parc y Mynydd Bychan
3 Cefnogaeth tra rydych ar leoliad
4 Addasrwydd i Ymarfer
5 Dydw i ddim yn hapus gyda fy lleoliad. Beth ddylwn ei wneud?
6 Cyfryngau cymdeithasol
7 Mae rhywbeth wedi digwydd ar leoliad. Beth ddylwn ei wneud?
7 Lles
8 Adeiladu eich cymuned
9 Rhoi adborth i wella'ch profiad
10 Swyddogion Etholedig



# Cyflwyniad gan IL Parc y Mynydd Bychan

Shwmae! Fi yw Joshua Tandy, eich Swyddog Sabothol etholedig ar gyfer Campws Parc y Mynydd Bychan.

Boed yn eich lleoliad cyntaf, trydydd neu olaf, gobeithio eich bod chi'n gyffrous ac yn barod i wneud y mwyaf ohono. Mae hwn yn gyfle anhygoel i ddysgu'n uniongyrchol gan weithwyr gofal iechyd profiadol, meithrin eich sgiliau clinigol a gweld eich astudiaethau'n dod yn fyw mewn lleoliad byd go iawn. Bydd y lleoliad yn hedfan heibio, felly mwynhewch bob eiliad a gwnewch y mwyaf o'ch amser yno!

Fel Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan, rwyf yma i'ch cefnogi lle bynnag yr ydych chi - allan ar leoliad neu ar y campws. Mae bod ar leoliad yn gam cyffrous, ond gall ddod â heriau hefyd, boed hynny'n addasu i oriau llawn amser neu fod i ffwrdd o ffrindiau a theulu. Fy rôl i yw sicrhau eich bod chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich cefnogi bob cam o'r ffordd. Bydd y llyfryn hwn yn eich helpu i dywys trwy'r newid hwnnw ac yn dangos i chi'r holl ffyrdd y gall Undeb y Myfyrwyr eich cefnogi yn ystod eich amser i ffwrdd.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr ar leoliad, ac mae llawer o'n gwasanaethau, gan gynnwys Cyngor i Fyfyrwyr, ar gael ar-lein. Does dim problem yn rhy fach, felly cysylltwch os oes angen help arnoch; dyna'n union pam rydyn ni yma.

Cadwch mewn cysylltiad trwy wirio'ch negeseuon e-bost a dilyn tudalennau Instagram Undeb Myfyrwyr ac Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan, nhw yw'r ffordd orau o gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a diweddariadau.

Mwynhewch eich amser i ffwrdd, ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn ôl ar y campws yn fuan!

**Joshua Tandy**

**Is-lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan 2025-26**

# Cefnogaeth tra rydych ar leoliad

Gall eich ysgol academaidd barhau i gynnig cymorth tra byddwch ar leoliad. Gellir dod o hyd i enwau unigolion gall helpu ar Learning Central – chwiliwch am y sefydliad ‘Dysgu wrth Ymarfer’ (Gwyddorau Gofal Iechyd), neu’r tab ‘Logisteg Lleoliad’ ar dudalen eich blwyddyn (Meddygaeth). Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch bob amser gysylltu â’ch Tiwtor Personol.

Gallwch hefyd gael mynediad at wasanaethau canolog y Brifysgol tra ar leoliad, gan gynnwys cymorth ariannol a lles. Ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys, gallwch gysylltu â Chyswllt Myfyrwyr - dylai’r holl wasanaethau sydd ar gael fel arfer yng Nghaerdydd fod ar gael ar-lein, gyda chymorth y tu allan i oriau lle bo angen.

## Cysylltwch â:

Ffôn - **029 2251 8888**
E-bost - **studentconnect@caerdydd.ac.uk**
Gwefan - **studentconnect.cardiff.ac.uk**

Gallwch hefyd gael mynediad i’r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr annibynnol, sy’n cynnig apwyntiadau ar-lein lle bo angen ac sy’n ateb ymholiadau dros e-bost.

## Cysylltwch â:

Ffôn - **029 2078 1410**
E-bost - **advice@caerdydd.ac.uk**
Gwefan - **cardiffstudents.com/advice**

# Addasrwydd i Ymarfer

Fel y gwyddoch, os ydych chi wedi cofrestru ar gwrs sy'n arwain at gofrestru proffesiynol, mae gan y Brifysgol ddyletswydd i sicrhau eich bod chi'n addas i ymarfer bob amser drwy gydol eich cwrs ac ar ôl graddio. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch chi ar leoliad, ac mae'n allweddol eich bod chi'n deall y sianeli cywir i godi pryderon, os oes gennych chi rai, a sut i gysylltu am gymorth os oes ei angen arnoch chi.

Yn bwysig iawn, disgwylir i chi fod yn agored ac yn onest bob amser ac felly rhaid i chi roi gwybod ar unwaith am unrhyw amgylchiadau a allai effeithio'n andwyol ar eich Addasrwydd i Ymarfer (neu Addasrwydd unrhyw un arall) i'ch Ysgol. Gallai'r rhain fod yn faterion iechyd, unrhyw ymwneud â'r heddlu sy'n deillio o'ch ymddygiad neu ymddygiad honedig, ymchwiliad corff statudol arall neu faterion eraill o onestrwydd neu dorri safonau corff proffesiynol. Gellir gweld methu â bod yn agored ac yn onest fel mater llawer mwy difrifol na'r pryder gwreiddiol.

Mae Cyngor i Fyfyrwyr yn gallu cefnogi myfyrwyr trwy ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer. Rydym yn eich annog yn gryf i gysylltu â Chyngor i Fyfyrwyr cyn gynted ag y codir pryder, os hoffech chi gael arweiniad a chymorth.



# Dydw i ddim yn hapus gyda fy lleoliad. Beth ddylwn ei wneud?

Os teimlwch fod angen i chi godi mater ynghylch eich lleoliad, mae'n bwysig gwneud hynny'n briodol ac yn broffesiynol, a defnyddio'r gweithdrefnau priodol i ddiogelu rhag unrhyw bryderon Addasrwydd i Ymarfer posibl. Nid yw codi pryder ynddo'i hun o reidrwydd yn rheswm dros atgyfeiriad Addasrwydd i Ymarfer, ar yr amod eich bod wedi gwneud hynny yn y ffordd gywir ac yn defnyddio'r broses gywir. Pan fyddwch chi ar y ward, neu yn y clinig, mae'n bwysig eich bod chi'n sefydlu at bwy y gallwch chi fynd ag unrhyw bryderon – efallai mai Rheolwr y Ward neu Reolwr y Practis yw hwn, neu rywun arall. Os nad ydych yn gwybod at bwy y gallwch fynd gyda phryder – gofynnwch.

Weithiau, efallai y bydd problem ar eich lleoliad y teimlwch fod angen i chi wneud y Brifysgol yn ymwybodol ohono. Mae'n bwysig gwybod y dylai fod gennych chi bwynt cyswllt o fewn eich Ysgol sy'n gyfrifol am leoliadau – a elwir weithiau yn Hwylusydd Addysg Ymarferol (PEF) a Swyddog Lleoliadau, neu efallai bod aelod dynodedig o staff sy'n helpu i gefnogi lleoliadau a myfyrwyr tra eu bod i ffwrdd. Os nad ydych chi'n gwybod pwy yw'r person hwn, cysylltwch â'ch Hwb Israddedig neu Ôl-raddedig.

# Cyfryngau Cymdeithasol

**Peidiwch** â phostio unrhyw wybodaeth am eich lleoliad ar gyfryngau cymdeithasol. Waeth beth fo'ch gosodiadau preifatrwydd, 'Ffrindiau Agos' neu fynediad cyfyngedig, nid yw cyfryngau cymdeithasol byth yn breifat ac maent bob amser yn barhaol. Bydd gan gyrff proffesiynol eu canllawiau eu hunain ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar eu gwefannau, a bydd disgwyl i chi gadw at y rhain bob amser tra ar leoliad ac yn ystod astudiaethau academaidd, felly mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r rhain.

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Enwi'r lleoliad, y Brifysgol, yr ysbyty neu'r lleoliad mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol;
- Postio gwybodaeth cleifion, dim ots os yw hyn yn ddienw;
- Postio gwybodaeth am aelodau staff, y Brifysgol, ysbyty neu leoliad neu eich barn amdanynt.

Os oes gennych broblem ar leoliad, gallwch gysylltu â Chyngor i Fyfyrwyr i drafod hyn yn annibynnol, yn ddiduedd ac yn gyfrinachol.



# Mae rhywbeth wedi digwydd ar leoliad. Beth ddylwn ei wneud?

Mae didwylledd a gonestrwydd yn bwysig iawn mewn lleoliadau gofal iechyd, felly mae'n bwysig, os oes rhywbeth wedi digwydd ar y ward neu yn y clinig, neu leoliad arall, eich bod yn dweud wrth rywun ar unwaith er budd diogelwch cleifion. Mae codi hyn yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach yn debygol o fod yn ffordd llawer gwell o weithredu nag aros nes iddo gael ei godi i chi.

Os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth wedi digwydd ar leoliad a allai arwain at atgyfeiriad Addasrwydd i Ymarfer, cysylltwch â Chyngor i Fyfyrwyr. Gallwn drafod yr amgylchiadau gyda chi a'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

# Lles

Gallai'r Brifysgol hefyd gychwyn ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer os oes ganddynt bryderon am eich lles. Eto, mae disgwyl i chi fod yn agored ac yn onest bob amser ac felly mae'n rhaid i chi roi gwybod ar unwaith i'ch Ysgol am unrhyw amgylchiadau a allai effeithio'n andwyol ar eich addasrwydd chi (neu unrhyw un arall) i ymarfer.

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i chi, er eich bod i ffwrdd ar leoliad. Gall Cyngor i Fyfyrwyr hwyluso apwyntiadau ar-lein neu dros y ffôn, a gallwn drafod eich opsiynau a'r cymorth sydd ar gael os oes angen.

# Adeiladu Eich Cymuned

Rydym yn deall bod byw i ffwrdd o Gaerdydd yn brofiad unig i rai, a dyna pam ein bod yn meddwl ei fod yn bwysig eich atgoffa am y cymunedau gallwch adeiladu tra rydych yng Nghaerdydd neu i ffwrdd.

Yn aml, cymdeithasau yw'r ffordd gorau o gwrdd â ffrindiau newydd a phobl rydych yn rhannu diddordebau gyda. Gall y rhain fod yn seiliedig ar eich diddordebau neu eich cwrs. Gallwch ddarganfod rhestr lawn o'r cymdeithasau sydd ar gael ar ein gwefan **cardiffstudents.com/activities/societies**.

Mae yna ddigonedd o grwpiau wedi'u seilio ym Mharc y Mynydd Bychan, fydd efo aelodau fel chi sydd ar leoliad trwy gydol y flwyddyn.



# Rhoi adborth i wella'ch profiad

Rydym yn gwybod nad yw pethau bob tro'n mynd y ffordd dymunwch, a dyna pam bod eich adborth yn bwysig. Dim ond trwy glywed gennych y gall y Brifysgol gwella pethau.

Dylai fod Cynrychiolydd Myfyrwyr etholedig ar gyfer pob cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd. Gallwch weld rhestr o'r holl gynrychiolwyr yma: **cardiffstudents.com/your-voice/reps** ac os hoffech gysylltu â nhw peidiwch oedi i e-bostio'n tîm Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar **StudentReps@caerdydd.ac.uk**.

Os nad oes gan eich ysgol unrhyw gynrychiolwyr a bod gennych ddiddordeb, rhowch wybod i ni! I wneud cais i fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr rhaid i chi gysylltu â Chydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr eich ysgol, neu siaradwch ag aelod arall o staff gall rhannu eich manylion gyda'r person cywir. Os na fedrwch ddod o hyd i'r person cywir cysylltwch â thîm Llais y Myfyriwr.

# Swyddogion Etholedig

Mae hefyd gan Undeb y Myfyrwyr nifer o Swyddogion Etholedig a benodwyd yn Etholiadau'r Gwanwyn i'ch cynrychioli chi. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddogion Sabothol llawn amser sy'n cymryd blwyddyn allan o'u hastudiaethau i weithio a'ch cynrychioli chi, a'n Swyddogion Ymgyrchu sy'n gwirfoddoli wrth astudio.

## Swyddogion Sabothol



# Swyddogion Ymgyrchu

Mae Swyddogion Ymgyrchu yn fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Maent yn ymgyrchu dros wahanol achosion, yn cynrychioli demograffeg penodol, ac yn cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

**I ddarganfod mwy am eich Swyddogion Ymgyrchu ac i ddysgu am eu nodau ac amcanion sganiwch isod neu ymweld â:**
**cardiffstudents.com/your-voice/elected-officers**

**Am ragor o gyngor a gwybodaeth sganiwch y cod QR**

**DARGANFOD EICH LLEOLIAD**

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd